Ministry of Defence

# Strategaeth Ddiwydiannol Amddiffyn

## Gwneud Amddiffyn yn Beiriant ar gyfer Twf

**Ein Gweledigaeth:** Bod pobl ar hyd a lled y DU yn teimlo'r budd mwyaf o gynyddu'r gwariant ar amddiffyn, a bod gan y DU sector amddiffyn mwy cystadleuol, integredig, arloesol a chadarn.

## Dull Gweithredu Newydd

### Lleoedd a Sgiliau

- **Bargeinion Twf newydd gwerth £250 miliwn ym maes Amddiffyn:** Buddsoddiad cychwynnol yn Plymouth, De Swydd Efrog, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, i roi hwb i ecosystemau diwydiannol ffyniannus
- **Pecyn sgiliau newydd gwerth £182 miliwn:** Yn cynnwys sefydlu 5 Coleg Rhagoriaeth Dechnegol ym maes Amddiffyn.
- **24,000 o brentisiaid y flwyddyn:** Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cefnogi tua 24,000 o brentisiaethau bob blwyddyn.

### Cefnogi Busnesau yn y DU

- **£28.8 biliwn o wariant y Weinyddiaeth Amddiffyn gyda diwydiant y DU yn 2023/24,** sy'n cyfateb i tua £420 y pen.
- **Lansio trefn offset newydd yn y DU erbyn dechrau 2026,** yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus â'r diwydiant.
- **Targed gwario newydd ar gyfer busnesau bach a chanolig:** £2.5 biliwn o gynnydd yng ngwariant y Weinyddiaeth Amddiffyn gyda busnesau bach a chanolig erbyn mis Mai 2028.

### Y DU ar Flaen y Gad o ran Arloesi ym Maes Amddiffyn

- **£400 miliwn ar gyfer UK Defence Innovation:** Sefydliad newydd yn y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n defnyddio dull newydd radical o arloesi.
- **Trawsnewid prosesau Profi a Gwerthuso:** Lleihau'r rhwystrau sy'n atal mynediad ar gyfer Profi a Gwerthuso, i sbarduno ymchwil, datblygu ac arloesi ym maes amddiffyn.
- **Technoleg Newydd ar gyfer Amddiffyn:** Roedd y Labordy Technoleg a Gwyddoniaeth Amddiffyn (Dstl) wedi gwario £413m gyda chwmnïau yn y DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – ar 1,128 o atebion technoleg arloesol ar gyfer Amddiffyn.

## Sylfaen Ddiwydiannol Gadarn yn y DU

- **Buddsoddiad o £1.5 biliwn mewn cynhyrchu arfau yn y DU:** Galluogi cynhyrchu 'wastad ar waith' a chreu chwe ffatri egnïeg newydd yn y DU
- **Rhaglen Galluogrwydd y Gadwyn Gyflenwi Amddiffyn:** Cyflawni newid sylweddol yn y ffordd y mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn deall, yn dylunio ac yn rheoli ein hecosystem ddiwydiannol.
- **Ymdrech ar y Cyd gyda Diwydiant:** Mynd i'r afael â risgiau a bygythiadau ar y cyd, gan gynnwys drwy ragor o brofion straen a gemau rhyfel.

## Paratoi Caffael ar gyfer Amddiffyn

- **Cynllun Buddsoddi mewn Amddiffyn:** Rhoi arwydd clir o'n bwriad ar gyfer caffael, arloesi, a gwyddoniaeth a thechnoleg am y 10 mlynedd nesaf.
- **Piblinell Gaffael:** Rhoi rhagolwg 5 mlynedd o brosesau caffael wedi'u cynllunio.
- **Moderneiddio Caffael:** Darparu gwerth am arian drwy farchnad wedi'i segmentu, caffael a alluogir yn ddigidol, a phrosesau penderfynu symlach.

## Allforion a Chydweithio Rhyngwladol

- **Swyddfa Allforion Amddiffyn newydd:** Hyrwyddo busnesau Prydeinig o bob maint gydag ymdrech well ar draws y Llywodraeth gyfan.
- **UKEF:** Hybu allforion drwy gynyddu'r capasiti cyllido cyffredinol hyd at £20 biliwn (i £80 biliwn), a chynyddu'r cyfleuster benthyca uniongyrchol hyd at £3 biliwn (i £13 biliwn).
- **Partneriaethau Rhyngwladol Newydd:** Adeiladu ar lwyddiannau diweddar o ran gwella cydweithrediad diwydiannol gyda chynghreiriaid allweddol ym maes amddiffyn.



**Y Gwir Anrhydeddus John Healey AS,** Ysgrifennydd Gwladol Dros Amddiffyn

"Bydd ein Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Amddiffyn yn gwneud Amddiffyn yn beiriant ar gyfer twf, gan gefnogi swyddi ym Mhrydain, diwydiant ym Mhrydain, ac arloesedd ym Mhrydain. Mae gan y Deyrnas Unedig un o'r canolfannau diwydiannol mwyaf datblygedig ac arloesol yn y byd ar gyfer amddiffyn, ond rydyn ni mewn oes newydd o fygythiad, sy'n gofyn am oes newydd o amddiffyn yn y DU. I symud tuag at barodrwydd i ymladd rhyfeloedd er mwyn atal bygythiadau a chryfhau diogelwch yn yr Ewro-Iwerydd, byddwn yn **DIWYGIO** caffael, **YN ARLOESI** ar gyflymder adeg rhyfel, ac yn **TYFU** ein sylfaen ddiwydiannol."

Ministry of Defence